

Cyngor Sir y Fflint
Gwasanaethau Addysg ac Ieuencid

Ysgol Uwchradd St David, Saltney

Ymgynghoriad ar Gynigion i newid ystod oedran Ysgol
Uwchradd St David o 11-18 i 11-16

Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth berthnasol ynghylch pam y cynigir newid ystod oedran Ysgol Uwchradd St David o 11-18 i 11-16.

Darperir cyllid ar gyfer darpariaeth addysg ôl-16 drwy grant gan Lywodraeth Cymru, sy'n lleihau bob blwyddyn gan greu pwysau cynyddol sylweddol ar chweched dosbarth bach. Er mwyn diogelu hawl dysgwyr i gael mynediad i ystod eang o gyfleoedd dysgu o ansawdd uchel, mae gan y Cyngor, drwy ei Strategaeth Moderneiddio Ysgolion, bwynt sbardun cytûn i adolygu darpariaeth ôl-16 mewn unrhyw ysgol uwchradd lle mae nifer y disgyblion o fewn addysg 6ed dosbarth yn disgyn islaw 150 o ddisgyblion am dair blynedd yn olynol.

Yng ngoleuni'r Adolygiad Barnwrol diweddar sy'n gysylltiedig ag Awdurdod Lleol arall yng Nghymru a gyflwynodd ddysgu a chanfyddiadau newydd, mae'r Awdurdod Lleol hwn wedi gwneud penderfyniad i adnewyddu'r ymgynghoriad, i sicrhau bod gwaith papur yr ymgynghoriad yn adlewyrchu canfyddiadau newydd sy'n gysylltiedig â chyfraith achos diweddar. Felly, bydd cyfle ychwanegol i bawb yr effeithir arnynt i gyfrannu eu barn ar y cynigion a amlinellir yn yr adroddiadau ymgynghori unigol.

Bydd yr ymgynghoriad newydd i'r cynnig i newid yr ystod oedran o 11-18 i 11-16 yn Ysgol Uwchradd St David, Saltney yn dechrau ar 5 Mehefin 2015 ac yn dod i ben ar 17 Gorffennaf 2015. Bydd adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ar gyfer ystyriaeth ym mis Gorffennaf 2015 (dyddiad i'w gadarnhau) a bydd yn ystyried, ar sail adborth yr ymgynghoriad a thystiolaeth, a ddylid bwrw ymlaen a gofyn i Weinidog Cymru benderfynu ar y cynnig, neu beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig.

Os cefnogir y cynnig, bydd y Cyngor wedyn yn mynd ymlaen o dan yr un amserlen â'r ymgynghoriad blaenorol a bydd yn cysylltu â chymhlethdod y ganolfan ddysgu ôl-16 yng Ngholeg Cambria, Cei Connah, a fydd yn cychwyn o ddechrau'r flwyddyn academaidd (Medi 2016).

Pwy fyddwn yn ymgynghori â hwy

Rydym yn ceisio barn y budd-ddeiliaid canlynol:

- Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd St David
- Disgyblion Ysgol Uwchradd St David
- Rhieni, gofalwyr, gwarcheidwaid, ac aelodau staff Ysgol Uwchradd St David
- Rhieni, gofalwyr, gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i Ysgol Uwchradd St David
- Cyrff llywodraethu eraill o ysgolion cynradd cyfagos
- Aelodau Seneddol
- ACau
- Estyn
- Undebau Llafur athrawon a staff
- GwE
- Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
- Aelodau Cynulliad ar gyfer Cyngor Sir y Fflint ac Aelodau Cynulliad rhanbarthol ar gyfer yr ardal
- Swyddog Cludiant Sir y Fflint a Swyddogion Cludiant Awdurdodau Lleol cyfagos
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- Y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- Yr Urdd
- Awdurdodau Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig
- Coleg Cambria

Mae fersiwn atodol o'r ddogfen ymgynghori hon wedi'i chynhyrchu ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig.

Cefndir y Cynigion

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) yn 2009. Arweiniodd hyn at hawliau gwell i bobl ifanc drwy'r Mesur Dysgu a Sgiliau. Roedd "Y Mesur" yn fodd o orfodi gweithredu'r Llwybrau Dysgu 14 i 19. Mae wedi sicrhau bod pob dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 4 yng Nghymru yn gallu dewis o blith o leiaf o 25 o bynciau, a rhaid i dri o'r rhain fod yn alwedigaethol, a bod 30 o ddewisiadau ar gael i ddysgwyr 16-18 oed, a rhaid i 5 ohonynt fod yn alwedigaethol.

Cyn y Mesur Dysgu a Sgiliau, roedd darpariaeth chweched dosbarth Cyngor Sir y Fflint yn cael ei chynnig mewn 11 o'r 12 o ysgolion uwchradd yn Sir y Fflint.

Ar ôl y Mesur, gweithredwyd trefniadau consortia i sicrhau bod ysgolion, trwy eu trefniant consortiwm, yn gallu cynnig yr ystod o gyrsiau a ragnodir gan 'Y Mesur'.

Mae Ysgol Uwchradd St David, Saltney yn rhan sy'n weddill o Gonsortiwm Glannau Dyfrdwy yn gweithio gydag Ysgol Uwchradd Cei Connah, Ysgol Uwchradd John Summers ac Ysgol Uwchradd Treffynnon. Mae gan y

consortiwm 6ed dosbarth a rennir sy'n golygu bod dysgwyr yn symud rhwng ysgolion i gael mynediad at y cyrsiau dewisol.

Mae rhaglen strategol Sir y Fflint ar gyfer datblygu a thrawsnewid Ysgol Uwchradd St David yn bodloni'r nodau a amlinellir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar Ysgolion yr 21ain Ganrif, Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, a Chanllawiau Llwybr Dysgu 14-19.

Y Cynigion

Y cynnig yw lleihau'r ystod oedran yn Ysgol Uwchradd St David, Saltney (ysgol gymunedol, cyfrwng Saesneg) o 11-18 i 11-16, gan derfynu'r ddarpariaeth ôl-16 yn yr ysgol o 31 Awst 2016.

O fis Medi 2016 ymlaen, bydd darpariaeth dysgu ôl-16 ar gael i fyfyrwyr o Ysgol Uwchradd St David, Saltney yn y ganolfan ôl-16 bwrpasol yng Ngholeg Cambria, Cei Connah.

Mae'r Ganolfan Ôl-16 arfaethedig yn brosiect cydweithredol rhwng Cyngor Sir y Fflint a Choleg Cambria. Bydd hyn yn galluogi myfyrwyr i gael mynediad at ystod ehangach o bynciau i fodloni 'Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru)'.

Bydd y cyfleuster newydd yn helpu i ddarparu gwell canlyniadau addysgol a mwy o hyblygrwydd o ran dewis cwricwlwm a hefyd yn galluogi mynediad i ystod ychwanegol o gyrsiau a gynigir yn y coleg.

Yn ogystal, bydd y cynnig hwn yn arwain hefyd at fyfyrwyr o'r ardal consortiwm bresennol yn gallu cael mynediad i ystod briodol o gyrsiau mewn un cyfleuster arbenigol, yn hytrach na chael mynediad i gyrsiau ar nifer o safleoedd ysgol.

Mae 'Memorandwm Cytundeb' rhwng Cyngor Sir y Fflint a Choleg Cambria sy'n cynnwys adeiladu cyfalaf a 'Chytundeb Llywodraethu' sy'n ymdrin â sut y bydd y ganolfan ôl-16 yn cael ei llywodraethu. Bydd y Ganolfan yn cael ei llywodraethu gan lywodraethwyr Coleg Cambria o dan y cytundeb hwn ac yn unol â Rheoliadau Addysg Bellach.

Yn ogystal, mae grŵp cynghori wedi'i sefydlu ac mae'n gyfrifol am ddatblygu methodoleg dull gweithredu sy'n cwmpasu ethos gweithio mewn partneriaeth a bod hyn yn cael ei integreiddio i'r modelau gweithredu ar gyfer y cyfleuster newydd. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o lywodraethwyr y Coleg, Swyddogion Cyngor Sir y Fflint a Phenaethiaid a chynrychiolwyr llywodraethwyr yr ysgolion partneriaeth gan gynnwys Ysgol Uwchradd St David.

Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd

Tabl 1 – Nifer y disgyblion ar y gofrestr – Ysgol Uwchradd St David (Ôl-16)

Oedran	Medi 11	Medi 12	Medi 13	Medi 14
Blwyddyn 12 (16-17)	55	56	50	46
Blwyddyn 13 (17-18)	26	41	42	39

*** Tabl 2 – Nifer y disgyblion ar y gofrestr – Ysgol Uwchradd St David (Niferoedd Amcanol)**

	Gwirioneddol lonawr 15	lonawr 16	lonawr 17	lonawr 18	lonawr 19	lonawr 20	lonawr 21
Blwyddyn 7 -11	422	442	446	465	496	512	509
Blwyddyn 12 - 13	86	80	0	0	0	0	0
Cyfanswm nifer ar y gofrestr	508	522	446	465	496	512	509

* Nid yw'r ffigurau yn cynnwys disgyblion disgwylidig o ddatblygiadau tai presennol.

Tabl 3 – Nifer amcanol o leoedd gwag yn Ysgol Uwchradd St David (11-18) ac (11-16). Gwirioneddol (G) Amcanol (A)

Nifer	(G)% lonawr 15 lleoedd heb eu llenwi	(A)% lonawr 16 lleoedd heb eu llenwi	(A) % lonawr 17 lleoedd heb eu llenwi	(A)% lonawr 18 lleoedd heb eu llenwi	(A)% lonawr 19 lleoedd heb eu llenwi	(A)% lonawr 20 lleoedd heb eu llenwi	(A)% lonawr 21 lleoedd heb eu llenwi
Cyn Medi 16 (687)	26.93	26.20					
Ar ôl Medi 16 (725)			40.83	38.21	33.93	31.72	29.29

** Cyn Medi 16 – mae'r ffigurau yn cynnwys disgyblion Ôl-16. Ar ôl Medi 16 – nid yw'r ffigurau yn cynnwys disgyblion Ôl-16. Mae'r nifer yn cynyddu ym mis Medi 16 oherwydd na fydd unrhyw ddisgyblion ôl-16.*

Gan fod ysgolion eraill yn yr ardal hefyd yn ymwneud â'r prosiect trawsnewid ôl-16 yng Ngholeg Cambria, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd y newid yn yr ystod oedran yn cael dylanwad ar amcanestyniadau mewn ysgolion eraill o ganlyniad uniongyrchol i'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Uwchradd St David.

Mae'r gyfradd aros / cadw yn Ysgol Uwchradd St David, o flwyddyn 11 ychydig yn is na'r cyfartaledd yn Sir y Fflint. Nid yw'r Awdurdod Lleol wedi cwblhau ymchwil manwl am yr ystadegyn hwn. Fodd bynnag, cymerir bod y gyfradd aros yn is yn yr ysgol hon na'r cyfartaledd yn Sir y Fflint yn bennaf oherwydd argaeledd ac agosrwydd y dewisiadau amgen i ddarpariaeth ôl-16 yn yr ardal, gan gynnwys Coleg Cambria a darpariaeth ar draws y ffin yng Nghaer gerllaw.

Roedd strategaeth moderneiddio ysgolion yr Awdurdod Lleol (2010) yn nodi mai'r ffigur isaf ar gyfer chweched dosbarth oedd 120, daeth y ffigur hwn o asesiad o allu ysgolion i ddarparu ar gyfer nifer ac amrywiaeth o gyrsiau o dan y mesur o'u dyraniadau ariannol.

Cefnogwyd hyn gan yr ysgolion eu hunain wrth iddynt ymrwymo i drefniadau consortiwm ar gyfer ôl-16, yn yr ardal lle cynigiwyd amrywiaeth o gyrsiau ar draws y consortiwm i gwrdd â'r mesur dysgu gan nad oedd ysgolion unigol yn gallu gwneud hynny. Fel y nodwyd yn gynharach roedd hyn yn golygu bod rhai disgyblion yn gorfod teithio i nifer o safleoedd i gael mynediad i'r cyrsiau o'u dewis yn hytrach na'u bod ar gael yn eu hysgolion lleol. Roedd hyn yn amhoblogaidd gyda dysgwyr a rhieni/gofalwyr.

Cododd y ffigur o 120 i 150 yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Sir y Fflint wedi'i diweddarau yn 2015. Roedd hyn oherwydd yr her barhaus i ysgolion ar ffurf pwysau cyllidebol a gostyngiad yn lefelau'r cyllid grant a oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addysg ôl-16 yn y dyfodol.

Bydd y cynllun tymor hir ar gyfer ailfodelu darpariaeth dysgu ôl-16 yn sicrhau bod gan y sir amrywiaeth fwy cytbwys ac amrywiol o ddarpariaethau dysgu ôl-16.

O ran hyfywedd y ddarpariaeth 11-16, ar hyn o bryd mae'r niferoedd amcanol yn yr ysgol yn is na throthwy polisi Moderneiddio Ysgolion yr Awdurdod, gan fod hwn yn nodi y dylai derbyniadau i ysgolion uwchradd fod ar bedwar dosbarth mynediad (120 o fyfyrwyr fesul grŵp blwyddyn a dderbynnir) neu gyfanswm o 600 o leoedd ar gyfer yr ystod oedran 11-16.

Fodd bynnag, mae gan yr ysgol leoliad daearyddol unigryw yn nwyrain y sir, mae angen i ysgol uwchradd gwmpasu ardal fawr. Ni ellir gwneud cymariaethau uniongyrchol ag ardal/oedd Glannau Dyfrdwy a Phenarlâg, lle mae 4 neu fwy o ysgolion uwchradd yn darparu lleoedd (yn amodol ar ddewis y rhieni) ar gyfer cymunedau lleol.

Mae datblygiadau tai ar y gweill ar hyn o bryd yn Saltney a Brychdyn gerllaw, mae datblygiad tymor hwy y Porth Gogleddol ymhellach i ffwrdd. Yn ogystal, mae'r Awdurdod Lleol yn ymgynghori â chymuned Glannau Dyfrdwy ar y

cynnig i gau Ysgol Uwchradd John Summers. Felly, mae niferoedd yn Ysgol Uwchradd St David yn ofynnol i sicrhau bod gennym y nifer cywir o Ysgolion Uwchradd mewn ardaloedd daearyddol priodol i ddiwallu anghenion disgyblion.

Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio fformiwla cynhyrchiant tai sy'n deillio o ymchwilio i waith Awdurdodau Lleol eraill. Mae'r cynhyrchiant tai ar gyfer ysgolion uwchradd (11-16) yn rhoi 0.15 o blant fesul tŷ (neu 0.18 ar gyfer ysgolion 11-18) ac ar gyfer ysgolion cynradd, 0.24 o blant fesul tŷ.

Datblygiadau Tai

Yr Ardal Gyfagos

- I'r de o'r Parc Manwerthu, Brychdyn – mae 75 o anheddau wedi'u cwblhau erbyn mis Ebrill 2015 ac mae 200 o anheddau eraill ar ôl sydd yn debygol o gael eu hadeiladu cyn mis Ebrill 2019.
- Hen Safle Compound, Brychdyn - mae caniatâd wedi'i roi ar gyfer 24 o unedau a bwriedir i'r rhain gael eu hadeiladu erbyn mis Ebrill 2019.
- 142 Stryd Fawr, Saltney - disgwylir i bob un o'r 58 o anheddau fod wedi'u cwblhau erbyn mis Ebrill 2019.

Mae 75 o anheddau wedi'u cwblhau ar y safleoedd uchod a rhagwelir y bydd 282 o anheddau yn cael eu cwblhau erbyn mis Ebrill 2019.

Gan ddefnyddio'r fformiwla, mae'r datblygiadau tai yn yr ardal gyfagos yn debygol o gynhyrchu 54 o ddisgyblion oedran uwchradd ac Ysgol Uwchradd St David yw'r ysgol uwchradd gymunedol agosaf, a 86 o ddisgyblion oedran cynradd (nid yw'r niferoedd hyn yn cymryd i ystyriaeth dewis y rhieni neu ddisgyblion o fewn y system addysg).

Yr Ardal Ehangach

Bydd y datblygiad yn y Porth Gogleddol yn cael ei ddatblygu dros gyfnod o amser o 2016/17. Bydd cyflymder y datblygiadau tai yn cael ei gyfyngu gan gyflymder datblygu seilwaith, cynlluniau perchnogion/datblygwyr y safle, y farchnad dai, yr hinsawdd economaidd bresennol a ffactorau eraill sy'n anodd eu rhagweld. Pe bai'r safleoedd datblygu tai o fewn y Porth Gogleddol yn cael eu datblygu i'r uchafswm sef 1325 o gartrefi (ffynhonnell: caniatâd cynllunio amlinellol) ac wrth ddefnyddio'r fformiwla cynhyrchiant tai (0.15), cyfanswm 'cynhyrchiant' o oedran ysgol uwchradd fyddai 199.

Ansawdd a Safonau Addysg

Arolwg Estyn 2011

Arolygwyd Ysgol Uwchradd St David, Saltney ddiwethaf gan ESTYN, ym mis Ebrill 2011, mae'r adroddiad ESTYN llawn ar gael yn:

<http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/darparwr/6644013>.

Mae rhagor o ganllawiau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ar y ddolen ganlynol: -

<http://fyysgolleol.cymru.gov.uk/>

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol wedi ei chategoreiddio fel a ganlyn dan y system genedlaethol: -

- Grŵp Safonau - 2
- Capasiti Gwella – B
- Categori Cymorth – Melyn

Crynodeb o'r Data: Ysgolion Uwchradd Lleol (Ion 2014) Ffynhonnell: Fy ysgol leol: -

	Saltney, Ysgol Uwchradd St David	Ysgol Uwchradd John Summers	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Ysgol Uwchradd Penarlâg
Nifer y disgyblion ar y gofrestr (Blwyddyn: 2014)	514	374	932	1,152
Prydau Ysgol am Ddim (PYDd) – cyfartaledd 3 blynedd 2014)	14.7%	31.9%	14.7%	7.5%
Cymhareb Disgybl Athro (CDA) (Blwyddyn: 2014)	14.9	12.9	17.4	16.7
% Presenoldeb yn ystod y flwyddyn (Blwyddyn: 2014)	92.7%	92%	92.8%	95.2%
Cyllideb ysgol fesul disgybl (Blwyddyn: 2015)	£4,301	£4,794	£3,936	£3,870
Categori cymorth (Blwyddyn: 2014)	Melyn	Oren	Melyn	Melyn
Canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 3 (Blwyddyn: 2014)	80.3%	78.1%	86.4%	90.6%
% y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg (Cyfnod Allweddol 4) (Blwyddyn: 2014)	57.3%	28.1%	57.1%	72.4%
Sgôr pwyntiau wedi'i gapio cyfartalog (Cyfnod Allweddol 4) (Blwyddyn: 2014)	359	323	351	360

Cymhariaeth o Ddata Categori Ysgolion Uwchradd Llywodraeth Cymru a GwE (ardal leol) 2014

Ysgol	Categori Data LIC*	GwE (Gallu i wella)	Categori Cymorth
Saltney, Ysgol Uwchradd St David	2 (50)	B	Melyn
Ysgol Uwchradd John Summers	4 (75)	C	Oren
Ysgol Uwchradd Cei Connah	3 (58)	B	Melyn
Ysgol Uwchradd Penarlâg	2 (42)	A	Melyn

* Mae amrywiaeth o set ddata yn rhoi cyfanswm sgôr ar gyfer pob ysgol (mewn cromfachau). Yna bydd y rhain yn cael eu rhoi mewn categorïau fel isod:

1=21-36.5. 2=37-52.5. 3=53-68. 4=68.5-84

Canlyniadau a gyflawnwyd gan Ddysgwyr sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim 2014

Ysgol	Trothwy Lefel 1	Trothwy Lefel 2	Sgôr pwyntiau wedi'i gapio
Saltney, Ysgol Uwchradd St David	72.7%	18.2%	286.4
Ysgol Uwchradd John Summers	92.9%	7.1%	286.3
Ysgol Uwchradd Cei Connah	95.5%	40.9%	325.0
Ysgol Uwchradd Penarlâg	100%	46.2%	339.2

Ôl-16 - Canlyniadau Consortiwm 2012-2014

Mae'r tabl isod yn dangos bod perfformiad trothwy L3 ar gyfer y consortiwm wedi bod islaw'r cyfartaledd yn Sir y Fflint a'r cyfartaledd cenedlaethol am 3 blynedd yn olynol. Yn ogystal, mae sgôr pwyntiau cyfartalog yn y consortiwm wedi bod yn is na'r ffigur cenedlaethol am 3 blynedd yn olynol ac yn is na'r cyfartaledd yn Sir y Fflint am 2 o'r 3 blynedd diwethaf.

Diffiniadau:

L3 - yw Trothwy Lefel 3. Dyma'r canran o ddysgwyr sy'n cofrestru ar gyfer dau neu fwy o gyrsiau Safon Uwch neu gyfwerth a enillodd dau neu fwy o raddau pasio.

APS - Dyma'r Sgôr Pwyntiau Cyfartalog. (system i roi pwyntiau i bob gradd a dderbynnir ac yna cyfrifo'r cyfartaledd ar draws y garfan).

*	L3			APS		
	2014	2013	2012	2014	2013	2012
Consortiwm Glannau Dyfrdwy	89%	91%	91%	655	755	563
Sir y Fflint	97%	96%	97%	750	750	700
	97%	96%	97%	807	805	773

* Mae'r holl ddata wedi'i allosod o ffurflenni Crynodeb o Berfformiad Ysgol Uwchradd Llywodraeth Cymru (SSSP).

Bydd effaith y cwricwlwm ar gyfer Ysgol Uwchradd St David yn newid o ddarpariaeth cwricwlwm 11-18 gyda'r ddarpariaeth ôl-16 yn cael ei chyflwyno fel rhan o gonsortiw m lleol, i gyfleuster sy'n darparu cwricwlwm ar gyfer oedran 11-16. Bydd y cynnig felly yn cael effaith gadarnhaol ar sicrhau bod dysgwyr yn cael ystod briodol o ddewisiadau cyrsiau yn y ganolfan ôl-16 yng Ngholeg Cambria er mwyn bodloni'r mesur dysgu a galluogi'r ysgol i ganolbwyntio ei adnoddau addysgu ar gyflwyno'r cwricwlwm 11-16.

Gan na fydd y ganolfan ôl-16 arfaethedig yn weithredol tan fis Medi 2016, nid yw wedi cael arolwg gan Estyn eto. Unwaith bydd y cyfleuster yn weithredol, bydd arolwg yn cael ei drefnu yn unol â chylch arolygu Estyn.

Goblygiad y cynigion ar ddarpariaeth 11-16 bresennol

Nid oes unrhyw oblygiadau sylweddol gan y cynigion ar ansawdd y ddarpariaeth 11-16 presennol yn Ysgol Uwchradd St David. Mae gan yr ysgol hanes o fod yn llwyddiannus yng Nghyfnod Allweddol 4. Roedd System Gategoreiddio Ysgolion Llywodraeth Cymru wedi gosod yr ysgol yn yr 2il Chwarter ar gyfer canlyniadau dysgwyr yn 2014, ac roedd wedi bod ym Mand 2 (allan o 5) o'r blaen yn 2013.

Roedd yr ysgol wedi cael arolwg gan Estyn ddiwethaf yn 2011 a barnwyd ei bod yn "Dda" gyda rhagolygon "Rhagorol" ar gyfer gwella. Roedd Estyn yn barnu bod yr ysgol yn debygol o wella yn seiliedig ar arweinyddiaeth effeithiol iawn a chymorth a ddarperir gan uwch reolwyr a rheolwyr canol, diwylliant o ddisgwyliadau uchel a hanes o lwyddo.

Roedd y Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion (GwE) yn barnu bod rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwelliant pellach yn dda. Mae'r Adroddiad Ymweliad Ffocws mwyaf diweddar yn sôn am gynllunio trefnus, staff yn ymwybodol o flaenoriaethau a chynnydd da o ran cyrraedd targedau a gyhoeddwyd yn y Cynllun Gwella Ysgol. Roedd yn cydnabod cryfderau a meysydd o ymarfer eithriadol ac nid oes unrhyw feysydd sylweddol angen cymorth.

Bydd GwE yn parhau i gefnogi a monitro'r ysgol bob tymor.

Mae fformiwla ariannu ysgolion yr Awdurdod Lleol yn cynnwys elfennau “cyfandaliad” mewn cydnabyddiaeth o'r gorbenion cyffredinol/costau sefydlog sydd gan bob ysgol beth bynnag ei maint neu niferoedd disgyblion. Mae'r dull hwn o ariannu ysgolion yn sicrhau nad yw ysgolion bach o dan anfantais annheg.

Rhagor o gyfleoedd ar gyfer dysgu ôl-16

Os cytunir ar y cynigion bydd gwell cyfleoedd ar gyfer bodloni anghenion dysgwyr ôl-16 yn eu cymunedau lleol yn effeithiol. Bydd y ganolfan ddysgu Ôl-16 yn darparu sylfaen ddiogel a chefnogol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion dysgwyr ôl-16 gyda chanolfan ddysgu ôl-16 gynaliadwy a phwrpasol.

Bydd gosod dysgwyr mewn canolfan ddysgu ôl-16 ehangach yn gwella cyfleoedd dysgu gan y bydd dewisiadau'r cwricwlwm yn cynyddu fel y bydd y potensial ar gyfer cyrhaeddiad dysgu. Bydd hefyd yn lleihau cyfraddau dysgwyr sy'n rhoi'r gorau i'r ysgol ac yn cynyddu amser cwricwlwm a hefyd yn darparu mwy o gyrsiau galwedigaethol.

Yn y tymor hwy, gall y ganolfan ddysgu ôl-16 o bosibl gynyddu nifer y dysgwyr sy'n cofrestru wrth i safonau cyrhaeddiad gynyddu.

Effaith ar ddarpariaeth Ôl-16 ac ar ddarpariaeth 11-16 yn yr ardal gyfagos a'r awdurdod lleol ehangach

Ysgolion Consortiwm Gogledd Sir y Fflint

Enw'r Ysgol	Goblygiadau newid ystod oedran Ôl-16	Goblygiadau ar ddarpariaeth 11-16 bresennol
Ysgol Uwchradd Treffynnon (Ysgol Gymunedol, cyfrwng Saesneg)	Mae'r hysbysiad statudol i newid yr ystod oedran o 11-18 i 11-16 wedi'i gwblhau – darperir y cynnig ôl-16 o fis Medi 2016 gan y ganolfan ôl-16 newydd yng Ngholeg Cambria.	O ystyried lleoliad daearyddol Ysgol Uwchradd Treffynnon nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth 11-16 bresennol a pharhaus.
Ysgol Uwchradd Cei Connah (Ysgol Gymunedol, cyfrwng Saesneg)	Mae'r hysbysiad statudol i newid yr ystod oedran o 11-18 i 11-16 wedi'i gwblhau – darperir y cynnig ôl-16 o fis Medi 2016 gan y ganolfan ôl-16 newydd yng Ngholeg Cambria.	Mae'r cynnig yn annhebygol o gynyddu nifer y disgyblion yn Ysgol Uwchradd Cei Connah gan na fydd darpariaeth 16-18 yn cael ei chynnig o fis Medi 2016. Fodd bynnag rhagwelir y bydd gan yr ysgol fwy na 300 o leoedd heb eu llenwi ar ôl mis Medi 2016, felly byddai'n gallu darparu ar gyfer disgyblion trwy ddewis rhieni.

<p>Ysgol Uwchradd John Summers (Ysgol Gymunedol, cyfrwng Saesneg)</p>	<p>Mae Awdurdod Lleol yn cynnal cyfnod ymgynghori ffurfiol i newid ystod oedran Ysgol Uwchradd John Summers o 11-18 i 11-16 er mwyn alinio â'r ganolfan ôl-16 erbyn mis Medi 2016. Darperir y cynnig ôl-16 o fis Medi 2016 gan y ganolfan ôl-16 newydd yng Ngholeg Cambria.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cynnal cyfnod ymgynghori ffurfiol ar gyfer cau'r ysgol 11-16 erbyn mis Medi 2017.</p>	<p>Mae'r cynnig yn annhebygol o gynyddu niferoedd disgyblion yn Ysgol Uwchradd John Summers drwy ddewis rhieni.</p>
---	--	---

Ysgolion 11-18 yn Sir y Fflint

Enw'r Ysgol	Goblygiadau newid ystod oedran Ôl-16	Goblygiadau ar ddarpariaeth 11-16 bresennol
<p>Ysgol Uwchradd Penarlâg (Ysgol Gymunedol, cyfrwng Saesneg)</p>	<p>Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol ei darpariaeth dysgu ôl-16 ei hun. Gall rhai dysgwyr ôl-16 Ysgol Uwchradd St David ddewis defnyddio'r cyfleuster hwn gan gael effaith bosibl ar niferoedd yn yr ysgol.</p>	<p>Mae Ysgol Uwchradd Penarlâg wedi'i gordanysgrifio ar hyn o bryd oherwydd dewis rhieni. Mae disgyblion o Saltney yn annhebygol o gael lle yn Ysgol Uwchradd Penarlâg gan fod y protocol presennol yn seiliedig ar gymhwyster yn seiliedig ar yr ysgol agosaf. Mae digon o leoedd ar gael mewn ysgolion eraill yn Sir y Fflint i ddarparu ar gyfer unrhyw ddysgwyr y mae eu rhieni yn mynegi dewis ar gyfer Penarlâg, ond na ellid bodloni eu dewis unwaith y bydd yr ysgol yn cyrraedd y nifer derbyn pob blwyddyn.</p>
<p>Ysgol Alun, yr Wyddgrug (Ysgol Gymunedol, cyfrwng Saesneg)</p>	<p>Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol ei darpariaeth dysgu ôl-16 ei hun. O ystyried ei lleoliad daearyddol nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth bresennol.</p>	<p>O ystyried lleoliad daearyddol Ysgol Uwchradd Alun yr Wyddgrug nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth 11-16 bresennol a pharhaus.</p>
<p>Ysgol Maes Garmon (Ysgol Gymunedol, cyfrwng Cymraeg)</p>	<p>Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol ei darpariaeth dysgu ôl-16 ei hun, ac mae'r cwricwlwm cyfan yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fyddem yn rhagweld dysgwyr sydd wedi bod yn</p>	<p>Ni fyddem yn rhagweld dysgwyr sydd wedi bod yn rhan o ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn symud i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg</p>

	rhan o ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn symud i ddarpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg mewn niferoedd sylweddol.	mewn niferoedd sylweddol. Nid yw'r cynigion, felly yn effeithio ar y ddarpariaeth hon ar hyn o bryd.
Ysgol Castell Alun, yr Hob (Ysgol Gymunedol, cyfrwng Saesneg)	Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol ei ddarpariaeth dysgu ôl-16 ei hun. O ystyried ei lleoliad daearyddol nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth bresennol.	O ystyried lleoliad daearyddol yr Ysgol Uwchradd hon, nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth bresennol.
Ysgol Arbenigol Ysgol Maes Hyfryd	O ystyried y ddarpariaeth ddysgu arbenigol yn yr ysgol hon, nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth bresennol.	O ystyried y ddarpariaeth ddysgu arbenigol yn yr ysgol hon, nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth bresennol.

Trefniadau Consortiwm Eraill

Mae cyrff llywodraethu Ysgol Uwchradd y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn wedi bod yn cydweithio i ddarparu cyfleoedd ôl-16 i'w dysgwyr ers 2013.

Enw'r Ysgol	Goblygiadau newid ystod oedran Ôl-16	Goblygiadau ar ddarpariaeth 11-16 bresennol
Ysgol Uwchradd y Fflint (Ysgol Gymunedol, cyfrwng Saesneg)	O ystyried lleoliad daearyddol Ysgol Uwchradd y Fflint nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth bresennol.	O ystyried lleoliad daearyddol Ysgol Uwchradd y Fflint nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth bresennol.
Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn (ysgol wirfoddol a gynorthwyr), cyfrwng Saesneg	O ystyried ffydd a lleoliad daearyddol Ysgol Uwchradd Gatholig Richard Gwyn, nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth bresennol.	O ystyried ffydd a lleoliad daearyddol Ysgol Uwchradd Gatholig Richard Gwyn, nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth bresennol.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i fonitro ac adolygu'r ddarpariaeth hon bob blwyddyn yn unol â'i Strategaeth Moderneiddio. Mae'r adolygiad blynyddol yn seiliedig ar ganlyniadau dysgwyr a gallu'r bartneriaeth i fodloni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau o'r dyraniad cyllid ôl-16 a gafwyd gan Lywodraeth Cymru.

Ysgolion 11-16 yn Sir y Fflint

Enw'r Ysgol	Goblygiadau newid ystod oedran Ôl-16	Goblygiadau ar ddarpariaeth 11-16 bresennol
Ysgol Uwchradd Elfed (Ysgol Gymunedol, cyfrwng Saesneg)	Nid oes unrhyw recriwtio parhaus o ran dysgwyr ôl-16 yn yr ysgol hon. O ganlyniad, ni fyddai unrhyw oblygiad uniongyrchol o'r newid hwn.	O ystyried lleoliad daearyddol Ysgol Uwchradd Elfed, nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth bresennol.
Ysgol Uwchradd Argoed (Ysgol Gymunedol, cyfrwng Saesneg)	Nid oes unrhyw recriwtio parhaus o ran dysgwyr ôl-16 yn yr ysgol hon. O ganlyniad, ni fyddai unrhyw oblygiad uniongyrchol o'r newid hwn.	O ystyried lleoliad daearyddol Ysgol Uwchradd Argoed, nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth bresennol.

Effaith debygol y cynigion ar staff a gyflogir yn Ysgol Uwchradd St David

Penodir gweithiwr proffesiynol arweiniol i reoli'r ddarpariaeth ôl-16, rhagwelir y bydd y recriwtio yn digwydd yn ystod haf 2015.

Tranche gyntaf penodiadau staffio fydd nodi rolau cwricwlwm. I ddechrau bydd y rolau hyn yn cael eu neilltuo i'r staff hynny ar draws y consortia gan gynnwys Ysgol Uwchradd St David sydd â phrofiad ôl-16 yn y coleg presennol ac ysgolion partneriaeth.

Pe na bai'r swyddi gwag a nodwyd yn cael eu llenwi erbyn y weithdrefn tranche gyntaf, bydd recriwtio ar gyfer swyddi gwag yn digwydd yn unol â phrosesau recriwtio a dethol Coleg Cambria.

Pe bai staff yn Ysgol Uwchradd St David yn cael eu dadleoli o ganlyniad i'r cynnig yna bydd y polisi newid sefydliadol a diswyddo perthnasol yn gymwys a bydd yn cael ei ddilyn fel y bo'n briodol gan gorff llywodraethu Ysgol Uwchradd St David.

Gall y cyfnod pontio ei hun achosi rhywfaint o ansicrwydd ar gyfer staff sy'n gweithio yn Ysgol Uwchradd St David, a bydd yr Awdurdod Lleol a'r Ysgol yn gwneud pob ymdrech i gefnogi'r staff hyn yn ystod y broses newid.

Rhagwelir, pe bai'r cynigion yn cael eu derbyn, gallai fod manteision i staff gan gynnwys rhagor o gyfle ar gyfer arbenigedd a datblygu gyrfa. Dylai leihau cystadleuaeth rhwng sefydliadau addysgol, a lleihau baich galw'r cwricwlwm er mwyn canolbwyntio adnoddau ar ddarpariaeth dysgu 11-16 yn Ysgol Uwchradd St David.

Y Gymraeg

Diffinnir y categori iaith drwy ddefnyddio Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 023/2007 "Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg".

Diffinnir Ysgol Uwchradd St David, Saltney fel Cyfrwng Saesneg – cyfrwng Saesneg yn bennaf lle gall 1 neu 2 o bynciau gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel opsiwn.

O ystyried dynodiad yr ysgol, nid oes gofyniad o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion i gynnal Asesiad Effaith ar y Gymraeg. Fodd bynnag mae Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg wedi'i gynnal ac mae ar gael ar wefan y Cyngor.

Ni fydd y cynnig i ddarparu darpariaeth ôl-16 yng Ngholeg Cambria yn newid y dynodiad iaith. Fodd bynnag, mae gan y ganolfan ôl-16 y potensial i ddarparu cyfleoedd ychwanegol i ddysgwyr gael mwy o ddewisiadau drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd galw priodol gan fyfyrwyr.

I ategu hyn, mae Coleg Cambria yn cydweithio o fewn y Fforymau Rhanbarthol i gynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel a nodir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) 2014 y Cyngor, yn ogystal, maent hefyd yn gysylltiedig â'r prosiect Cefnogwr Dwyieithog gyda Llywodraeth Cymru.

Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Bydd y ganolfan ôl-16 arfaethedig yng Ngholeg Cambria yn gwbl hygyrch o ran Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae llai na 10 disgybl â datganiad anghenion addysgol arbennig yn Ysgol Uwchradd St David, Saltney. Nid oes unrhyw ddisgyblion â datganiad addysg ôl-16 yn yr ysgol.

Mae'r trefniadau presennol yn Sir y Fflint ar gyfer myfyrwyr sy'n methu â mynychu cyrsiau ôl-16 lefel 3, yn golygu y gallant gael mynediad i gyrsiau lefel 1 a lefel 2, ôl-16 yng Ngholeg Cambria, a bydd y trefniant hwn yn parhau.

Goblygiadau Ariannol

Diffiniad o Wariant Cyfalaf - Gwariant ar asedau anghyfredol (tir ac adeiladau, cerbydau, peiriannau ac offer) â'r bwriad o fod o fudd i gyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol neu wariant sy'n cynyddu capasiti, economi, effeithlonrwydd neu oes ased presennol.

Diffiniad o Wariant Refeniw - Y gost o ddydd i ddydd o redeg gwasanaethau'r Cyngor gan gynnwys gwariant ar: staff, cyflenwadau a gwasanaethau, ac atgyweirio a chynnal a chadw asedau. Mae taliadau ar gyfer ad-dalu dyledion, a llog ar ddyledion wedi'u cynnwys hefyd.

Cyfalaf

Mae'r Ganolfan ôl-16 yng Ngholeg Cambria, Cei Connah yn rhan annatod o raglen Band A Ysgolion yr 21ain Ganrif Sir y Fflint sy'n werth £64.2 miliwn.

Cyflwynwyd yr Achos Busnes Llawn ar gyfer y Ganolfan Ôl-16 i Lywodraeth Cymru (LIC) gan yr Awdurdod Lleol ym mis Hydref 2014 ac fe'i cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, ym mis Ionawr 2015.

Mae cost y prosiect oddeutu £14,626,000, a chaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru 50%, Cyngor Sir y Fflint 25% a Choleg Cambria 25%.

Y prosiect yw adeiladu cyfleuster canolfan ôl-16 newydd yng Ngheï Connah ar gyfer 700 o leoedd i wasanaethu rhannau o gonsortiw m ôl-16 Gogledd Sir y Fflint, sef Ysgolion Uwchradd Ceï Connah, Treffynnon, John Summers a St David.

Refeniw

Mae cyllid ar gyfer addysg ôl-16 mewn ysgolion prif ffrwd drwy grant uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Caiff y gyllideb ei dyrannu fel un cyfandaliad i bob ysgol gan yr Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod Lleol yn darparu dadansoddiad o'r elfennau y mae disgwyl iddo eu talu. Yr ysgolion sydd i benderfynu ar gostau gwirioneddol darpariaeth ôl-16 ac i sicrhau ei fod yn fforddiadwy o fewn y grant.

Yn achos chweched dosbarth bach, mae hyn yn golygu nad yw'r cyfandaliad yn ddigonol i gefnogi nifer y cyrsiau gofynnol o dan y mesur ac mae'r ysgol yn gorfod sybsideiddio o'i dyraniad fformiwla a'r prif reswm pam sefydlwyd trefniadau consortiw m ôl-16 hir-sefydlog. Nid yw'r dyraniadau fformiwla a ddarparwyd i'r ysgol gan yr Awdurdod Lleol wedi eu newid gan y Cynnig i newid yr ystod oedran ac nid yw'r gost fesul disgybl yn newid yn unol â hynny.

Y cynnig yw cael gwared â'r ddarpariaeth ôl-16, bydd hyn yn arwain at yr ysgol yn methu gallu hawlio'r grant oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer y ddarpariaeth hon. Fodd bynnag, gan na fydd yr ysgol yn darparu darpariaeth ôl-16 naill ai'n annibynnol neu drwy drefniadau consortiw m, bydd hyn yn cael effaith ariannol niwtral.

Gan y bydd Coleg Cambria yn llywodraethu'r ganolfan ôl-16, byddant yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

O ran costau cludiant i'r ganolfan ôl-16 newydd, mae manteision logistaidd clir o gael un ganolfan ôl-16 sy'n symud oddi wrth y trefniadau consortia ôl-16 presennol lle mae rhai disgyblion yn cael eu cludo i nifer o safleoedd, i gael mynediad i ystod o gyrsiau. Fodd bynnag, gallai hyn gael ei wrthbwyso gan rai disgyblion sy'n cael mynediad i ystod lawn o gyrsiau yn eu chweched dosbarth lleol ac nad oes angen cludiant arnynt ar hyn o bryd. Felly, rhagwelir y bydd y gost ar gyfer cludiant sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn yn niwtral o ran cost gyda'r posibilrwydd o gyflawni arbedion cludiant pan gaiff contractau cludiant eu rhesymoli unwaith y bydd y ganolfan ôl-16 arfaethedig yng Ngholeg Cambria yn weithredol.

Goblygiadau Cludiant

Bydd y cynigion, os cytunir arnynt, yn darparu mwy o gyfleoedd gwell ar gyfer diwallu anghenion ddysgwyr mewn cymunedau lleol. Dylai hyn leihau ac nid cynyddu costau cludiant, yn enwedig o'i gymharu â modelau consortiw m

cynharach. Fodd bynnag bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i ddarparu cludiant yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Sir y Fflint

<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/School-Transport/Transport-Eligibility-Criteria-.pdf>

Nid yw'r cynnig i derfynu'r ddarpariaeth ôl-16 yn Ysgol Uwchradd St.David, Saltney yn golygu anfantais i ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau Safon Uwch naill ai yn Ysgol Uwchradd St David, Saltney neu mewn cyfuniad o sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau consortia presennol.

Yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Sir y Fflint, bydd gan ddysgwyr sy'n bodloni'r meini prawf pellter hawl i gael cludiant am ddim i'r ganolfan ôl-16. Yn ogystal, mae amser teithio disgyblion ymhell o dan y canllawiau a geir yn y Mesur Cludiant.

Goblygiadau adeiladau y cynigion

Y ddarpariaeth bresennol – Ysgol Uwchradd St David, Saltney

Cyflwr

Cwblhawyd asesiad cyflwr ym mis Medi 2013. Mae'r Awdurdod Lleol ar hyn o bryd yn dosbarthu cyflwr yn ei bortffolio ysgol yn ôl y graddau canlynol: -

Gradd Cyflwr	Disgrifiad
A	Da – Yn perfformio fel y bwriadwyd ac yn gweithredu'n effeithlon.
B	Boddhaol – Yn perfformio fel y bwriadwyd ond yn arddangos ychydig o ddirywiad.
C	Gwael - Yn arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd.
D	Drwg - Disgwyliad oes wedi dod i ben a/neu risg difrifol o fethiant ar fin digwydd.

Rhodddwyd gradd B - boddhaol – Yn perfformio fel y bwriadwyd ond yn arddangos ychydig o ddirywiad, i Ysgol Uwchradd St David, Saltney.

Addasrwydd

O ran addasrwydd y ddarpariaeth yn Ysgol Uwchradd St David, Saltney, mae'r asesiad addasrwydd sy'n cymharu'r ysgol yn erbyn y canllawiau Bwletin Adeiladau perthnasol, wedi amlygu'r diffygion canlynol:

- Mae nifer o ystafelloedd arbenigol sef, Labordai, Celf, Technoleg, TGCh islaw gofynion amrywiaeth maint isaf y bwletin adeiladau.
- Nid oes ardaloedd ymarfer cerddoriaeth.

- Mae ardal llyfrgell yr ysgol yn ddiffygiol o ran maint.
- Mae 13 o 18 o ystafelloedd dosbarth cyffredinol islaw gofynion amrywiaeth maint y bwletin adeiladu.
- Mae ystafelloedd dosbarth mewn rhai blociau yn dioddef problemau amgylcheddol tymhorol yn bennaf oherwydd ynni'r haul a/neu golli gwres.
- Mae llwybrau cylchrediad gwael mewn rhai ardaloedd yn yr ysgol.
- Mae ffurfweddiad mynediad a pharcio a chyfleusterau yn wael.

Pe bai'r cynigion yn cael eu cymeradwyo, yr effaith ar Ysgol Uwchradd St David o ran Mesur Capasiti ysgolion yng Nghymru, fyddai y bydd capasiti'r ysgol yn cynyddu o 687 i 725 erbyn mis Medi 2016.

Fodd bynnag bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r ysgol i leihau'r capasiti yn unol â Pholisi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Lleol i leihau lleoedd gwag mewn ysgolion. Er mwyn mynd i'r afael â hyn ynghyd â'r materion addasrwydd, digonolrwydd a chyflwr, mae'r Awdurdod yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb o Ysgol Uwchradd St David gyda golwg y bydd cynllun cyfalaf yn cael ei gyflwyno ar gyfer cynhwysiant posibl yn y rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif neu raglen gyfalaf yr Awdurdod Lleol yn y dyfodol.

Darpariaeth Newydd - y ganolfan ôl-16 arfaethedig

Mewn cymhariaeth uniongyrchol, mae'r ganolfan ôl-16 newydd, sydd ar hyn o bryd mewn cyfnod adeiladu a bydd yn costio oddeutu £14m.

Mae'r adeilad yn darparu cyfleuster dysgu ysbrydoledig ar gyfer 700 o fyfyrwyr mewn man canolog rhwng Campws Glannau Dyfrdwy Coleg Cambria ac Ysgol Uwchradd Cei Connah, mae'n cynnwys cyfleusterau arbenigol y Celfyddydau Perfformio, Cerddoriaeth, Gwyddoniaeth a'r Celfyddydau Creadigol yn ogystal ag ystafelloedd dosbarth addysgu cyffredinol a mannau astudio cymdeithasol a phreifat. Mae modd mynd i'r cynllun o fynedfa sydd newydd ei ffurfio o Lôn Golftyn, ac mae'r cynllun yn cynnwys parcio i staff ac ymwelwyr ar gyfer y Ganolfan newydd yn ogystal â man parcio bysiau ar gyfer campws ehangach Coleg Cambria.

Bydd yr adeilad cynaliadwy iawn yn hyrwyddo'r defnydd o olau dydd ac awyriad naturiol o'i fewn a bydd hefyd yn ymgorffori nifer o dechnolegau cynaliadwy gan gynnwys pŷmpiau gwres yr awyr, celloedd ffotofoltäig a phaneli dŵr poeth solar.

- Bydd yr adeilad yn cyrraedd safon Ysgolion yr 21ain Ganrif.
- Bydd cyflwr yr adeilad yn safon A.
- Gan y bydd yn gyfleuster pwrpasol, bydd yn cael ei adeiladu o fewn Canllawiau'r Bwletin Adeiladau, felly ni fydd unrhyw faterion addasrwydd.
- Bydd yr adeilad yn cyrraedd safon rhagoriaeth BREEAM a bydd ei radd ynni yn radd A.

- Bydd mynediad di-dor i ddarpariaeth TGCh a Wi-Fi o fewn y cyfleuster newydd.

Mae'r ganolfan ôl-16 arfaethedig wedi ei heithrio o asesiad capasiti Llywodraeth Cymru.

Tir ac adeiladau

Nid oes unrhyw oblygiadau o ran naill ai: trosglwyddo tir neu gael gwared ar adeilad o ganlyniad i'r cynnig. Bydd yr adeilad a'r tir yn Saltney, Ysgol Uwchradd St David, yn aros fel y mae ar hyn o bryd ac mae'r ganolfan ôl-16 yn cael ei hadeiladu ar dir sy'n eiddo i Goleg Cambria ar eu safle yng Nghei Connah.

Derbyniadau i'r ganolfan ôl-16 arfaethedig

Bydd recriwtio ar gyfer derbyn yn 2015 yn cael ei weinyddu gan ysgolion y bartneriaeth a'r Coleg.

Bydd lleoedd yn cael eu clustnodi ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o Flwyddyn 12 mewn ysgolion partneriaeth i Flwyddyn 13 yn y ganolfan arfaethedig.

Wedi hynny, bydd derbyniadau i'r ganolfan ôl-16 yn cael eu gweinyddu gan y Coleg yn unol â'u polisi derbyn.

Cadw'r ddarpariaeth ôl-16 bresennol

Nid yw cadw'r ddarpariaeth ôl-16 bresennol drwy drefniadau consortiwm presennol Gogledd Sir y Fflint yn gynaliadwy. Mae'r Awdurdod Lleol wedi bod yn datblygu newid trawsnewidiol ôl-16 ar draws y consortiwm hwn ac i'r perwyl hwn mae eisoes wedi bod yn llwyddiannus wrth ddatblygu cynigion statudol mewn dwy ardal, Cei Connah a Threffynnon, ac ar hyn o bryd mae'n datblygu cynigion ar gyfer Ysgolion Uwchradd St David a John Summers. Yn ogystal, mae dwy ysgol drwy eu cyrff llywodraethu wedi ffurfio eu consortiwm eu hunain ar gyfer darpariaeth ôl-16 yn y Fflint. Mewn gwirionedd felly nid yw'r trefniadau consortiwm blaenorol yn yr ardal hon ar waith yn eu ffurf wreiddiol mwyach.

Fel rhan o'r trawsnewid hwn i ganolfan ôl-16 newydd, bydd llywodraethwyr ac ysgolion yn sicrhau parhad o ran addysg i fyfyrwyr addysg ôl-16. Fel y cyfryw byddant yn symud ymlaen gyda threfniadau sefydliadol a threfniadau rheoli o ystyried bod amseriad y cyfnod pontio wedi'i gynllunio ar gyfer mis Medi 2016.

Nid yw'n bosibl i'r ysgol gynnig addysg ôl-16 yn annibynnol a bodloni gofynion y Mesur Dysgu.

Beth yw'r manteision/anfanteision a'r risgiau o ran y cynigion?

Mae yna fanteision sylweddol i ddatblygu'r ganolfan ddysgu ôl-16 a rhai anfanteision, er nad yw'r olaf yn sylweddol.

Manteision y Cynigion

- Bydd amrywiaeth ac ansawdd y cyrsiau yn bodloni'r mesur dysgu a sgiliau ar gyfer dysgwyr.
- Bydd ystod ehangach o gyrsiau academiaidd a galwedigaethol yn cael eu darparu ar y cyd.
- Gellir cryfhau'r cysylltiadau hyfforddiant presennol rhwng ysgolion yn Sir y Fflint a Choleg Cambria ar draws ystod lawn o gyrsiau galwedigaethol.
- Bydd cronfa fwy â chymwysterau gwell o ddarpar weithwyr ag amrywiaeth ehangach o gymwysterau.
- Bydd yr Adeilad yn cyrraedd safon Ysgolion yr 21ain Ganrif gyda chyfleusterau wedi'u hadeiladu'n bwrpasol yn hyrwyddo cyrhaeddiad addysgol gwell.
- Gan y gellir cynnig yr holl gyrsiau mewn un cyfleuster, mae hyn o gymorth i gynyddu amser cwricwlwm.
- Bydd yn arwain at well presenoldeb a chynnydd yn y ganran o ddysgwyr 16-19 mewn Addysg a Hyfforddiant.
- Rhagor o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a phersonol ar gyfer staff yn y cyfleuster.
- Gwell trefniadau pontio ar gyfer dysgwyr a staff.
- Mynediad rhwydd i adnoddau hyfforddiant ar gyfer staff a myfyrwyr.
- Gwell cynaliadwyedd ariannol.

Anfanteision a Risgiau

- Posiblwydd o golli rhai aelodau staff o Ysgol Uwchradd St David.
- Efallai na fydd disgyblion yn dewis cymryd lle yn y ganolfan ôl-16 newydd.
- Ni fydd darpariaeth ôl-16 yn cael ei darparu mwyach yn yr ysgol leol.
- Gall y cyfnod pontio ar gyfer dysgwyr gael ei amharu o bosibl ar ôl-16 oherwydd y trosglwyddo i amgylchedd dysgu newydd
- Gallai'r ganolfan ôl-16 arwain at yr un canlyniadau addysgol â'r trefniadau consortiwm presennol.
- Efallai y bydd dysgwyr yn dewis symud i ddarpariaethau dysgu ôl-16 tu allan i'r sir a gallai hyn effeithio ar y gymuned
- Bydd rhaid i nifer fach o ddisgyblion sy'n gallu cael mynediad at bob un o'u dewisiadau cwrs yn Ysgol Uwchradd St David deithio ymhellach i'r ganolfan ôl-16.

Bydd risgiau yn cael eu lliniaru drwy drefniadau pontio effeithiol a chyswllt da er mwyn sicrhau parhad o ran dysgu a'r broses recriwtio. Bydd cymorth yn cael ei ddarparu hefyd i ddisgyblion a'u teuluoedd i sicrhau eu bod yn cael cyngor ac arweiniad lle bo angen hefyd.

Mae Ysgol Uwchradd St David hefyd yn rhan o Grŵp Ymgynghorol y Ganolfan Ddysgu Ôl-16 sydd wedi'i sefydlu ac sy'n gyfrifol am ddatblygu methodoleg dull gweithredu sy'n cwmpasu ethos gweithio mewn partneriaeth a bod hyn wedi'i integreiddio yn y modelau gweithredu ar gyfer y cyfleuster newydd.

Mae Coleg Cambria wedi cytuno i neilltuo staff addysgu â chymwysterau perthnasol a phrofiad o ysgolion y consortiwm a'r cyfleuster ôl-16 yn y coleg yn tranche cyntaf y broses recriwtio.

Dewisiadau Amgen sydd wedi'u hystyried

Mae'r Awdurdod Lleol wedi gweithio gydag amrywiaeth o fudd-ddeiliaid allweddol o ran ffurfio ei Strategaeth Ôl-16. Roedd rhestr hir o opsiynau yng Nghonsortium y Gogledd yn cynnwys y canlynol:

- Dewis 1 – Gwneud dim.
- Dewis 2 – Canolbwyntio darpariaeth ôl-16 yng Nghei Connah, gyda rhywfaint o resymoli mewn manau eraill.
- Dewis 3 – Rhannu'r ddarpariaeth a chydweithio ar sail Gogledd-orllewin (Treffynnon, y Fflint a Sant Richard Gwyn) a'r Gogledd-ddwyrain (John Summers, Cei Connah, St David)
- Dewis 4 – Ail-gategoreiddio pob ysgol i fod yn ddarparwyr ar gyfer 11-16 a bod ag un darparwr ôl-16 gyda llywodraethu annibynnol.

Cafodd hyn ei leihau i'r rhestr fer fel a ganlyn: -

- Dewis 1 – Gwneud dim
- Dewis 2 – Cydweithredu yn y Gogledd (canolbwyntio darpariaeth ôl-16 yng Nghei Connah)
- Dewis 4 – Cydweithredu yn y Gogledd (ail-gategoreiddio pob ysgol i 11-16 a bod ag un sefydliad annibynnol ar gyfer darpariaeth ôl-16)

Dewisiadau gostyngol

- Dewis 1 – Gwneud dim - cafodd ei ddiystyru gan nad oedd y trefniadau consortiwm yn gallu cynnal yr amrywiaeth o gyrsiau sy'n ofynnol dan y Mesur Dysgu; ac roedd canlyniadau'r trefniant consortiwm yn is na chyfartaledd perfformiad Cenedlaethol a'r Sir. Mae darpariaeth ôl-16 arall yn yr ardal yn cael ei haildrefnu erbyn mis Medi 2016.
- Dewis 4 – Cydweithredu yn y Gogledd (ail-gategoreiddio pob ysgol i 11-16) a bod ag un sefydliad annibynnol ar gyfer darpariaeth ôl-16. Cafodd hyn ei ddiystyru, gan mai polisi'r Awdurdod (2010) oedd bod angen i'r ddarpariaeth ôl-16 mewn ysgolion fod yn is na 120 o

ddisgyblion cyn y byddai'r Awdurdod Lleol yn adolygu, felly roedd niferoedd ôl-16 mewn ysgolion eraill yn gynaliadwy.

Y Dewis a Ffefrir

- Dewis 2 – Cydweithredu yn y Gogledd (canolbwyntio darpariaeth ôl-16 yng Nghei Connah)

Manylion ymgynghoriad

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Uwchradd St David o 11-18 i 11-16. Gwneir y Cod Trefniadaeth Ysgolion ("Y Cod") o dan Adrannau 38 a 39 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Daeth y Cod i rym ar 1 Hydref 2013 ac mae'n berthnasol mewn perthynas â'r holl gynigion ysgolion. Rhaid i gynigion i newid ystod oedran ysgol ddilyn y broses ganlynol: -

1. Mae'r Cyngor yn ystyried y Cod ac yn awdurdodi ymgynghoriad ar y newidiadau i'r ysgol;
2. Ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori **rhaid** i'r Cyngor ddarparu dogfen ymgynghori i ymgynghoreion a rhoi o leiaf 42 diwrnod iddynt ymateb, a rhaid i o leiaf 20 o'r diwrnodau hyn fod yn ddiwrnodau ysgol. Os yw'r Cyngor yn ei ystyried yn briodol, cynhelir cyfarfodydd â budd-ddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori;
3. Caiff sylwadau ar yr ymgynghoriad eu casglu a'u crynhoi gan y Cyngor. Caiff y crynodeb hwn ynghyd ag ymatebion swyddogion y Cyngor eu hunain eu cyhoeddi mewn adroddiad ymgynghori o fewn 3 mis o ddiwedd y cyfnod ymgynghori a'u cyflwyno i Gabinet y Cyngor ar gyfer ystyriaeth;
4. Mae Cabinet y Cyngor yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau o fewn 6 mis o ddiwedd y cyfnod ymgynghori. Os mai'r penderfyniad yw bwrw ymlaen, cymerir Cam 5. Os bydd dewis newydd yn dod i'r amlwg yn ystod yr ymgynghoriad, yna ailadroddir Camau 1-3;
5. Cyhoeddir hysbysiad statudol yn darparu cyfnod rhybudd o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. **Rhaid** i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a chyda 15 diwrnod ysgol (heb gynnwys y diwrnod cyhoeddi) mewn cyfnod o rybudd;
6. Os derbynnir gwrthwynebiadau, **rhaid** i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad gwrthwynebu gan roi crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'u hymatebion iddynt cyn pen 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu;
7. Yn achos darpariaeth ôl-16 anfonir y cynigion ar gyfer penderfyniad Gweinidogol, mae hyn fel arfer o fewn 16 wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu;

8. Os bydd y cynigion yn cael cymeradwyaeth dylid eu gweithredu yn unol â'r dyddiad a roddir yn yr hysbysiad statudol, neu unrhyw ddyddiad dilynol wedi'i addasu.

Sut gallwch fynegi eich barn

Mae nifer o ffyrdd y gallwch roi eich barn i ni am y cynigion. Gallwch:

- Lenwi holiadur ar-lein ar <http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Area-Schools-Review.aspx>
- Llenwi ffurflen ymateb a'i dychwelyd i'r Tîm Moderneiddio Ysgolion, Addysg ac Ieuenctid, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6ND; neu
- Fel arall, anfonwch eich ymatebion/cwestiynau yn ysgrifenedig at y Tîm Moderneiddio Ysgolion, Addysg ac Ieuenctid, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND neu drwy e-bost: 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk

Bydd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar **17 Gorffennaf 2015**.

Sylwch nad yw ymatebion i'r ymgynghoriad ar hyn o bryd yn cael eu cyfrif yn wrthwynebiadau. Gellir cyflwyno'r rhain dim ond yn dilyn y cam nesaf, sef cyhoeddi hysbysiad statudol, sy'n nodi'r dewis terfynol y mae cynghorwyr wedi penderfynu arno. Bydd hyn yn ymddangos yn yr ysgol ac ar wefan y Cyngor. Bydd yr ysgol yn cael gwybod pryd fydd angen gwneud hyn, ac os hoffech hysbysiad, rhowch eich manylion yn Atodiad A.

Atodiad A

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

(Sylwch na fydd ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei gyfrif fel gwrthwynebiad ffurfiol)

Newid ystod oedran Ysgol Uwchradd St. David, Saltney o 11-18 i 11-16

Cyn i chi ddechrau – os hoffech lenwi'r ffurflen hon ar-lein, ewch i:

<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Area-Schools-Review.aspx>

Yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd i chi yn y llyfryn hwn, yn y digwyddiad ymgynghori ac o ddogfennau eraill sydd ar gael ar wefan y Cyngor, rhowch eich barn ar ddevis a ffefrir y Cyngor yn eich ardal.

Pa mor gryf ydych yn cytuno gyda'r ymgynghoriad i newid ystod oedran yr ysgol o 11-18 i 11-16?

Cytuno'n Gryf Tueddu i Gytuno Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno

Tueddu i Anghytuno Anghytuno'n Gryf

Dywedwch wrthym pam rydych yn teimlo fel hyn. Rhowch ddisgrifiad o unrhyw ddewis amgen yr ydych yn dymuno ei gyflwyno.

Amdanoch chi:

I'n helpu i ddeall beth yw barn grwpiau gwahanol o bobl, dywedwch wrthym ychydig amdanoch eich hun:

Rhowch eich manylion cyswllt isod (*yn anffodus nid ydym yn gallu ystyried ymatebion oni bai y rhoddir manylion cyswllt, gan gynnwys y cod post llawn*)

Enw:

Cyfeiriad:

Cod post:

Ydych chi'n:

Rhiant/Gofalwr Athro/awes Staff Cefnogi
 Llywodraethwr Arall

Enw'r ysgol :

Hoffwn gael gwybod am unrhyw hysbysiad statudol yn y dyfodol sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn.